

At: Aelodau Cyngor Ymgynghorol  
Sefydlog ar Addysg Grefyddol  
(CYSAG)

Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Hydref  
2015

Deialu 01824 712568  
Union:

e-bost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR  
ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD MERCHER, 21 HYDREF 2015** yn  
**YSGOL UWCHRADD GATHOLIG Y BENDIGAID EDWARD JONES, Y RHYL.**

Yn gywir

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

## **AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR  
GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

### **MYFYRDOD TAWEL**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** y  
cysylltiad personol a ddatgenir ganddynt.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y  
cyfarfod fel materion brys o dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth  
Leol 1972.

- 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 10)  
Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir
- 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG 2012-2103** (Tudalennau 11 - 24)  
Ystyried adroddiad i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol CYSAG drafft.
- 6 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGU** (Tudalennau 25 - 28)  
Derbyn dadansoddiad o Adroddiad Arolygon diweddar gan Estyn.
- 7 ADDYSG GREFYDDOL YN CA3: CHWARAEWR PÊL DROED MOSLEMAIDD YN YR UWCH GYNGHRAIR**  
Derbyn cyflwyniad ynghylch adnodd dwyieithog sydd ar gael ar gyfer pob ysgol uwchradd.
- 8 AG A CHYMUNEDAU LLEOL** (Tudalennau 29 - 64)  
Derbyn cyflwyniad am yr adnodd gorffenedig. Argymhell bod yr adnodd yn cael ei anfon i holl ysgolion yr Awdurdod Lleol.
- 9 Y GWEINIDOG ADDYSG, HUW LEWIS A DYFODOL ADDYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 65 - 66)  
Trafod gohebiaeth ynghylch sylwadau'r gweinidog yn ymwneud â newid enw Addysg Grefyddol
- 10 CYSAG A CHYDWEITHREDIAD O YSGOL I YSGOL**  
Hybu cynrychiolaeth athrawon drwy gydweithio o ysgol i ysgol
- 11 CCYSAGC**
- i. Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas
  - ii. Cytuno ar bresenoldeb yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC Blaenau Gwent 25 Tachwedd 2015.
- 12 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**  
I'w gadarnhau

## **AELODAETH**

### **Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Bill Tasker  
Dewi Owens  
Arwel Roberts

Joe Welch  
Ann Davies

### **Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Mr. Simon Cameron  
Mr. Dominic Oakes  
Y Parch. B H Jones  
Y Parch. Martin Evans-Jones

Mary Ludenbach  
Mrs C Thomas  
S Harris  
Is-Gapten Sian Radford

### **Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

Mrs C Harmsworth

Mrs Maureen Phillips

### **Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn

Mr G Craigen

### **COPIAU AT:**

Bob Cynghorydd er gwybodaeth  
Y Wasg a Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun, Dydd Llun, 29 Mehefin 2015 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

#### **Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Cynghorydd Arwel Roberts (Is-gadeirydd) a Joe Welch.

#### **Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Parchedig M. Evans-Jones (Cadeirydd), Mr S. Cameron, Parchedig B.H. Jones a Ms M. Ludenbach.

#### **Aelodau Cyfetholedig**

Mr G. Craigen.

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Cynghorydd Challenge ar gyfer GwE (PL), Helen Jones (Ysgol Bryn Collen) a Gweinyddwr Pwyllgor (CIW).

### **MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrddod tawel. Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau CYSAG i fyfyrddod ar ddiwyddiadau trasig diweddar a oedd wedi digwydd yn ddiweddar ar draws y byd.

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Mr. Dominic Oakes, Dewi Owens a/ac Ann Davies.

#### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion pwyllgor Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2015 (wedi'u dosbarthu'n flaenorol).

**PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2015 fel cofnod cywir.

## 5 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLWG

Cyflwynodd Cynghorydd Her GwE (CA) adroddiad oedd yn dadansoddi canlyniadau arolygiadau Estyn diweddar o ran darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn pedair ysgol rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Ionawr 2015. Cynhaliwyd arolygiadau yn Ysgol Emmanuel; Ysgol Frongoch ac Ysgol Gynradd, Pentrecelyn.

Rhoddodd yr AS grynodedb i'r aelodau am ganfyddiadau yn ymwneud â phob ysgol a chafodd y sylwadau a chanlyniadau cadarnhaol eu nodi gan yr Aelodau. Cyfeiriodd yn benodol at y canlynol:-

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r canlyniadau?

Lles:-

- Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol Frongoch wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol, ac wedi cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol.
- Roedd Ysgol Pentrecelyn wedi cefnogi elusennau, lleol a thramor, ac roedd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion pobl eraill.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Profiadau dysgu:-

- Roedd gan bob dosbarth yn Ysgol Emmanuel gysylltiadau gwerthfawr â gwledydd yn Ewrop a'r byd ehangach. Mae'r cysylltiadau rhyngwladol buddiol iawn yma wedi cefnogi disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o fywydau pobl mewn gwahanol wledydd.
- Roedd Ysgol Frongoch wedi llwyddo i ehangu gorwelion disgyblion a'u gwybodaeth am y byd ehangach. Roedd disgyblion wedi datblygu dealltwriaeth gwerth chweil o'u rôl fel dinasyddion byd-eang.
- Roedd Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang wedi cael ei hyrwyddo drwy waith y cwricwlwm, gweithgarwch cyngor yr ysgol a'r eco-gyngor yn Ysgol Pentrecelyn.

Gofal, Cymorth ac Arweiniad:

- Mae'r staff yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn Ysgol Emmanuel drwy weithredoedd dyddiol o addoli ar y cyd ac amrywiaeth ddiddorol o weithgareddau cwricwlwm, ac roedd cyfleoedd da iawn i ddisgyblion fyfyrion ar eu credoau eu hunain, eu rhinweddau personol a'u sgiliau.

- Yn Ysgol Frongoch, fe hyrwyddodd y profiadau dysgu ddatblygiad personol y disgyblion yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.
- Yn Ysgol Pentrecelyn, fe hyrwyddwyd datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Gadawodd athrawon i ddisgyblion gymryd rôl fwy amlwg yng ngwasanaethau boreol, ac fe ymatebodd bron pawb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd hyn.

Yr Amgylchedd Dysgu:-

- Bu pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch yn Ysgol Frongoch.

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?

Arweinyddiaeth:-

Gweithio mewn Partneriaeth:-

- Roedd gan Ysgol Frongoch gysylltiadau gwerth chweil gyda'r gymuned ehangach sydd wedi cael dylanwad cadarnhaol ar brofiadau dysgu a lles disgyblion, megis ymweliadau sydd wedi gwella dealltwriaeth disgyblion o straeon y Beibl.
- Roedd Ysgol Pentrecelyn yn rhan bwysig o'r gymuned sydd â pherthynas gref gyda'r ysgol. Yn ogystal â chynnal gwasanaethau tymhorol yn yr Eglwys a'r capel, croesawodd yr ysgol y gymuned i ymuno â nhw ar achlysuron megis cinio Nadolig.

Eglurodd y CA y bu nifer o enghreifftiau lle'r oedd ysgolion a grwpiau ffydd wedi cydweithio a darparwyd enghreifftiau o hyn.

**PENDERFYNWYD** - *Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.*

## 6 ADOLYGIAD DONALDSON

Eglurodd y CA bod yr Athro Donaldson wedi cynnal adolygiad o'r cwricwlwm. Mae ei adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'i asesiad yng Nghymru' yn amlinellu canfyddiadau ac argymhellion.

Eglurodd y CA fod y cyflwyniad wedi'i rannu â CYSAG Conwy a Sir y Fflint yn y drefn honno. Derbyniwyd ymateb gan gynrychiolydd ffydd yn CYSAG Sir y Fflint a dynnodd sylw at bryderon ynghylch ehangder y ddogfen, a gwerth y cyflwyniad wrth grynhoi gofynion yr Adolygiad.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol gan y CA. Ymhelaethodd ar y meysydd allweddol perthnasol a materion o fewn y ddogfen a allai effeithio ar gyflwyno darpariaeth Addysg Grefyddol:-

- Cwestiynau ar gyfer y ddadl fawr a chynnwys yr holiadur.
- Diben y cwricwlwm.

- Meysydd o ddysgu a phrofiad- amlinellwyd 6 maes gan y CA.
- Egwyddorion pedagogaidd – tynnodd y CA sylw at 9 pwynt.
- Draws y cwricwlwm.
- Rôl gref sydd gan athrawon wrth lunio cwricwlwm.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr G. Craigen ynghylch y ddarpariaeth gan Lywodraeth i gynorthwyo a pharatoi athrawon ar gyfer y dull canlynol o ddarparu cwricwlwm newydd a gwahanol iawn, yn dilyn yr adolygiad, eglurodd y CA na fyddai'n cael ei weithredu'n llawn tan 2020. Fe eglurodd fod yr adolygiad wedi darparu llawer o argymhellion ond nid oedd unrhyw arwydd ynghylch sut y byddai'n cael ei weithredu a byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y cam nesaf drwy greu cynllun gwaith.

Cyfeiriodd y CA yn benodol at y cyfleoedd a fyddai'n cael eu creu ym mlynnyddoedd 7 ac 8. Cyfeiriodd y Cynghorydd A. Roberts at y broses asesu a fabwysiadwyd yn yr Alban, a chyfeiriodd at lwyddiant clwstwr y Rhyl, roedd o'n teimlo nad oedd wedi cael ei ailadrodd ym Mhrestatyn. Eglurodd y CA yn y dyfodol y byddai myfyrwyr yn cael eu hasesu yn erbyn sgiliau nid lefelau, gyda chonsortia yn cynhyrchu portffolio o bwyntiau asesu. Cyfeiriwyd yn benodol at effaith sylweddol o ran profion FfLIRh a'r angen i ysgolion cynradd ac uwchradd gydweithio'n agosach yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd tynnwyd sylw at y materion canlynol:-

- Pwysigrwydd Cyfnod Allweddol 3 yn darparu pynciau o ran fframwaith ar gyfer arholiadau a lefelau sgiliau myfyrwyr.
- Byddai'r cyngor a roddir gan CYSAG yn berthnasol i gytuno ar y maes llafur ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Cyfeiriwyd at barhad Fframwaith enghreifftiol a dull cyffredinol.
- Rhoi statws cyfreithiol i'r maes llafur a gytunwyd arno mewn ysgolion i ddarparu sylfaen ar gyfer holl Addysg Grefyddol.
- Cynrychiolwyr athrawon o fewn CYSAG i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol, a fyddai'n rhoi mynediad uniongyrchol i'r ystafell ddosbarth.

Amlinellodd y CA y model presennol a'r defnydd o gynrychiolwyr athrawon ar CYSAG. Esboniodd y byddai'r model newydd rhywfaint yn wahanol gan y byddai'n bwydo lawr i grwpiau fel llinell gyfathrebu. Cytunodd aelodau o CYSAG y byddai'r CA yn ysgrifennu at ysgolion i symud ymlaen â'r dull newydd. Byddai athrawon yn cael eu gwahodd i gymryd rhan gyda grwpiau bach ac yna gallent eu cynrychioli ar CYSAG. Tynnodd Mr G. Craigen, sylw at bwysigrwydd cydymffurfio â gofynion cynrychiolaeth Undeb Athrawon petaent yn cynyddu cynrychiolaeth athro ar CYSAG.

**PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, derbyn a nodi y cyflwyniad ar Adolygiad Donaldson.

## 7 YSGOL BRYN COLLEN A GWEITHIO YN Y GYMUNED

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, fe amlinellodd Ms Helen Jones, Ysgol Bryn Collen, sut y mae'r Ysgol wedi gweithio gyda grwpiau ffydd lleol, a rhoddodd ddiweddariad am yr ysgolion a'r prosiect gwaith cymunedol.



Rhoddodd Ms Jones grynodedb o'r cyflwyniad a oedd yn cynnwys manylion a gwybodaeth am:-

- Rannu arferion da.
- Y cyllid a dderbynnir drwy'r Grant Elusennol Ymddiriedolaeth Archesgob Rice Jones, ac eitemau ac adnoddau caffaeledig gydag arian a dderbyniwyd.
- Cyfnod Allweddol 2, Blwyddyn 6, Ysbryd Sanctaidd William Booth.
- Manylion yr ymweliad i Fyddin yr Iachawdwriaeth a'r gwaith a wneir.
- Cydaddoli.
- Ymweliad i'r ysgol gan Barchedig Una.
- Manylion am y gweithgareddau a gynhaliwyd yn yr ysgol gan gynnwys ymweliad A.J. Pingram, Priodas Ffug a Diwrnod Bedyddio a Diwali.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

**PENDERFYNWYD** - bod y CYSAG yn derbyn ac yn nodi cynnwys y cyflwyniad.

## 8 CCYSAGC

### (a) Cofnodion CCYSAGC – 6 Mawrth 2015

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2015 yng Nghastell-nedd Port Talbot (a ddsbarthwyd yn flaenorol) er gwybodaeth i'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** - derbyn cofnodion CCYSAGC a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2015.

Dywedodd y CA bod Sir Fflint wedi cynnal cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd ar 25 Mehefin, 2015, a chadarnhaodd y byddai'r cofnodion ar gael yn y cyfarfod nesaf.

Cyfeiriodd y Parchedig B.H. Jones at ddau gyflwyniad ardderchog a gafwyd gan y CA yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGC. Awgrymodd y gallai fod yn fuddiol petai cyflwyniadau o'r fath yn cael eu cynnwys ar agenda cyfarfodydd CYSAG yn y dyfodol, neu bod copïau'n cael eu dosbarthu i Aelodau o CYSAG. Cyfeiriodd yn benodol hefyd at gyflwyniad addoli ysgolion Wrecsam.

Estynnwyd llongyfarchiadau i a Mr P.Lord (CA) am gael eu penodi yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd, yn y drefn honno, ar gyfer CCYSAGC am y flwyddyn nesaf.

Cyfeiriodd at dri chyflwyniad rhagorol a gafwyd yn CCYSAGC yn ymwneud â'r cwricwlwm, fframwaith llythrennedd a rhifedd ac ennyn diddordeb bechgyn mewn addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd.

Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â nifer o ysgolion cynradd yn ei rôl fel Cadeirydd CYSAG. Fodd bynnag, mynegodd ei siom nad oedd wedi derbyn ymateb i'w gais i ymweld ag ysgol uwchradd. Cytunodd y Cynghorydd A. Roberts i fynegi'r pryderon a fynegwyd gan y Cadeirydd, ynghylch y diffyg ymateb, i Bennaeth yr Adran. Rhoddodd Ms M. Ludenbach wahoddiad i'r Cadeirydd ymweld ag Ysgol y Bendigaid Edward Jones, y Rhyl.

Yn dilyn y cyflwyniad a gafwyd gan aelod o SACRE Wrecsam, eglurodd y CA y ceisiwyd barn ysgolion am Aelodau'n mynychu SACRE a'i ystyried yn weithred o gydaddoli. Cytunodd y CYSAG y byddai'r CA yn trafod ag ysgolion i ganfod os byddent yn cytuno i aelodau CYSAG fynychu ac arsylwi ac addoli ar y cyd. Cadarnhaodd y CA fod aelodau CYSAG yn Wrecsam a Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant ar fynychu a gwyllo cydaddoli mewn ysgolion.

### **(b) Presenoldeb yng Nghyfarfod CCYSAGC – 25 Tachwedd 2015**

Cafwyd cadarnhad y byddai Mr G. Craigen a Mr P. Lord (CA), Cadeirydd ac Is-Gadeirydd CCYSAGC yn bresennol yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC a fyddai'n cael ei gynnal ym Mlaenau Gwent ym mis Tachwedd 2015.

### **(c) Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith ac Is-gadeirydd CCYSAGC**

Esboniodd ar ôl i'r Cynghorydd D. Michael Gray dynnu ei enwebiad yn ôl, roedd dau enwebiad yn parhau ar gyfer dwy swydd ar y Pwyllgor Gweithredol. Penodwyd y ddau enwebydd arall i'r ddwy swydd wag, sef y Cynghorydd Ernie Galsworthy o CYSAG Merthyr Tudful a Ms E. Ruth Davies.

Cafwyd cadarnhad bod Mr Phil Lord (CA) wedi'i benodi'n Is-Gadeirydd CCYSAGC.

## **9 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych am 10.00am ddydd Mercher, 21 Hydref 2015 yn Ysgol Bendigaid Edward Jones y Rhyl.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am.

**Adroddiad Blynyddol**

**Cyngor Ymgynghorol  
Sefydlog Sir Ddinbych  
ar Addysg Grefyddol**

**2014 - 2015**

## Rhagair

### ***Rôl Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol :***

Prif rolau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yw:

- Cyngori'r Awdurdod Lleol ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol a chydaddoli, neu sy'n ymwneud â Datblygiad Ysbrydol a Moesol;
- Ystyried ceisiadau gan Benaethiaid i ryddhau eu hysgolion o'r gofynion statudol bod natur gyffredinol Cydaddoli yn gyfan gwbl neu'n bennaf Gristnogol (gelwir ceisiadau o'r fath yn 'Benderfyniadau');
- Ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol adolygu ei Faes Llafur y Cytunwyd arno;
- Monitro'r ddarpariaeth Addysg Grefyddol, cydaddoli a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol;
- Rhoi cyngor ynglŷn â'r maes llafur Addysg Grefyddol y cytunwyd arno gan athrawon, gan gynnwys y dewis o ddeunyddiau ar gyfer athrawon;
- Cyngori'r Awdurdod Lleol ynglŷn â darparu hyfforddiant ar gyfer athrawon (mewn Addysg Grefyddol);
- Ystyried cwynion am y ddarpariaeth Addysg Grefyddol a chydaddoli y mae'r Awdurdod Lleol yn eu cael.
- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith.

Cyfansoddiad y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol:

Mae'r gofynion statudol ar gyfer sefydlu Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn gofyn am dri phwyllgor o aelodau:

- Cynrychiolwyr o enwadau Cristnogol neu grefyddau eraill a'u henwadau'n adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal;
- Cynrychiolwyr sy'n Athrawon;
- Cynrychiolwyr y Cyngor Sir.

Ceir hefyd yr hawl i gyfethol aelodau.

## CYNNWYS

|   | Tudalen Rhif: |
|---|---------------|
| <b>1. Crynodeb Gweithredol.</b>   | 2             |
| <b>2. Cyngor a roddwyd i'r Awdurdod Lleol:</b>  | 4-5           |
| a) Addysg Grefyddol a'r Maes Llafur y Cytunwyd Arno   | 4             |
| b) Dulliau addysgu, dewis o ddeunyddiau addysgu a darparu<br>Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon | 5             |
| c) Cydaddoli  | 5             |
| <b>3. Materion Eraill:</b>  | 6-7           |
| a) Materion Lleol   | 6             |
| b) Materion Cenedlaethol:   | 6-7           |
| i. Estyn  |               |
| ii. Adran Addysg a Sgiliau  |               |
| iii. Cymdeithas Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg<br>Grefyddol Cymru                      |               |
| c) Cwynion  | 7             |
| <b>4. Atodiadau:</b>  | 8-12          |
| a) Cyfansoddiad y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg<br>Grefyddol                            | 8             |
| b) Nifer a dyddiadau cyfarfodydd  | 8             |
| c) Sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad   | 9             |
| d) Canolbwyntio ar dystiolaeth: ystadegau   | 10-12         |

**Crynodeb Gweithredol**

| <b><i>Pynciau / Materion:</i></b>                 | <b><i>Cyngor a roddwyd:</i></b>   | <b><i>Wedi'i Weithredu<br/>Gan yr Awdurdod Addysg<br/>Lleol:</i></b> |
|---|---|--|
| Ynglŷn â'r: Maes Llafur y Cytunwyd Arno           | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Maes Llafur y Cytunwyd arno a'r Canllaw Cynhwysfawr ar gyfer Addysg Grefyddol yn parhau i fod ar gael mewn ysgolion i lywio eu gwaith cynllunio a pharatoi.</li> </ul>   | ✓  |
| Ynglŷn â: Safonau                                 | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ar ôl ystyried Adroddiadau Arolygon, anfonir llythyrau i'r ysgolion yn eu llongyfarch am y nodweddion da.</li> </ul>   | ✓  |
| Ynglŷn â: Dewis Deunyddiau Addysgu                | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dim arweiniad ffurfiol, ond mae'r gefnogaeth ychwanegol a chanllawiau ar gyfer y Maes Llafur y Cytunwyd Arno'n cynnwys cyfeiriad at rai deunyddiau addysgu.</li> </ul>   | ✓  |
| Ynglŷn â: Darparu Hyfforddiant Cychwynol Athrawon | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dim ymweliadau'n bosibl eleni.</li> </ul>  |  |
| Cydaddoli   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ar ôl ystyried Adroddiadau Arolygon, anfonir llythyrau i'r ysgolion yn eu llongyfarch am y nodweddion da.</li> </ul>   | ✓  |
| Materion Eraill: Lleol                            | <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod yr aelodau'n parhau i drafod sut orau i fonitro safonau mewn ysgolion</li> <li>Mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol wedi comisiynu i greu dogfen astudiaethau achos enghreifftiol i hyrwyddo ac ysbrydoli arfer da o ran cyfranogiad y gymuned leol mewn Addysg Grefyddol a Chydaddoli a fydd ar gael i bob ysgol</li> </ul>  | ✓<br>✓   |
| Materion Eraill: Cenedlaethol                     | <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod yr aelodau'n cael eu diweddarau'n rheolaidd ynglŷn ag Adroddiadau Arolygon Estyn neu ddogfennau'n ymwneud ag Addysg Grefyddol a Chydaddoli;</li> <li>Bod yr Aelodau'n cael gwybod am ddatblygiadau a mentrau a gynhelir gan yr Adran Addysg a Sgiliau;</li> <li>Bod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn cynnal ei aelodaeth o Gymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru, cynrychiolwyr yn mynychu ac yn adrodd yn ôl ar gyfarfodydd y gymdeithas.</li> <li>Dadansoddiad CBAC o arholiadau Astudiaethau Crefyddol</li> <li>Bod Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru yn parhau i ofyn i Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol i werthuso a gwella'r ffordd y maent yn monitro ac yn gweithio gydag ysgolion</li> </ul> | ✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓  |
| Materion Eraill: ychwanegol                       | Dim materion ychwanegol eraill.   |  |

|         |                             |  |
|---------|-----------------------------|--|
| Cwynion | Dim cwynion wedi dod i law. |  |
|---------|-----------------------------|--|

Tudalen 15

## Yr Adroddiad Blynyddol

### 2. Cyngor a roddwyd i'r Awdurdod Lleol

#### (a) Addysg Grefyddol:

##### i. Y Maes Llafur y Cytunwyd Arno

Mabwysiadodd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol y 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i rai 3-19 oed' fel y Maes Llafur Lleol y Cytunwyd Arno ar gyfer Sir Ddinbych yn 2008. Mae'r fframwaith yn parhau i fod yn sail i'r Maes Llafur y Cytunwyd Arno yn Sir Ddinbych. Bydd y Maes Llafur y Cytunwyd Arno'n cael ei adolygu unwaith y bydd canfyddiadau'r adolygiad cwricwlwm yn cael eu cyhoeddi.

Prif swyddogaeth Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yw, '...cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur y cytunwyd arno ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11 (1) (a)

Nid oes cyngor neu hyfforddiant wedi cael eu rhoi ar y Maes Llafur y Cytunwyd Arno yn y flwyddyn academaidd gyfredol er bod llawer o ysgolion wedi mabwysiadu'r cam cynllunio o'r 'Canllaw Cynhwysfawr i Addysg Grefyddol' ac 'Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen', dogfennau a gafodd eu cynllunio i gyd-fynd â Maes Llafur Sir Ddinbych y Cytunwyd Arno.

##### ii. Safonau

###### Canlyniadau arholiadau

Cafodd y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol fanylion am ganlyniadau arholiadau 2014

Safodd 64 yn fwy o ddisgyblion y cwrs llawn yn 2015 nag yn 2014, 391 o'i gymharu â 456. Roedd canlyniadau'r cwrs llawn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, 81.1% o'i gymharu â 73%, 2.3% yn uwch na chanlyniadau'r Awdurdod Lleol y llynedd.

Safodd 34 o ddisgyblion y cwrs byr yn 2015, 259 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y canlyniadau'n is na'r tueddiadau cenedlaethol, y canlyniadau cyffredinol A\*-C oedd 20.6%, 32.4% yn is na'r canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pob ymgeisydd, a gostyngiad o 14.6% ar ffigurau lleol y llynedd.

Yn 2014, safodd 77 o ddisgyblion arholiad Safon Uwch mewn Astudiaethau Crefyddol, 9 yn fwy nag yn 2014. Ar gyfer Safon Uwch, y gyfradd A\*-C gyffredinol oedd 97.2%, rhyw 9.2% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ond yn debyg i ffigurau lleol y llynedd.

###### Adroddiadau Arolygon

O ganlyniad i fframwaith arolygu cyfredol Estyn nid oes sylwadau ar bob pwnc yn adroddiadau Estyn. Yn hytrach, mae'r aelodau'n cael gwybodaeth o'r adroddiadau sy'n ymwneud â sylwadau Estyn am y ddarpariaeth Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol mewn ysgolion. Gweler rhan c Cydaddoli – Darpariaeth Monitro - Adroddiadau Arolygon  
Cafodd yr aelodau gyflwyniad ar adolygiad thematig Addysg ar Ddatblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang Estyn hefyd, gan ganolbwyntio ar sut y gall Addysg Grefyddol gefnogi'r maes hwn o'r cwricwlwm.



## b. Dulliau Addysgu

Mae'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a'r Awdurdod Lleol wedi darparu dogfennau a deunyddiau cynhwysfawr i gefnogi'r Maes Llafur y Cytunwyd Arno, ac mae'r rhain yn cynnwys cyngor ar dulliau addysgu a chyflwyno Addysg Grefyddol.

Nid oes cyngor wedi'i roi i ysgolion o ran dulliau addysgu yn 2014-15.

## Dewis Adnoddau Addysgu

Nid yw Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol wedi cyngori ysgolion yn ffurfiol gyda'r mater o brynu adnoddau addysgu, gan dybio bod hyn yn fater i'r ysgolion eu hunain.

## Darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

Nid oedd modd trefnu ymweliad na derbyn ymweliad eleni gan Sefydliad Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn ystod y flwyddyn.

## c) Cydaddoli

### Monitro'r ddarpariaeth

#### Adroddiadau Arolygon

Fel rhan o'r broses fonitro, mae Adroddiadau Arolygon Estyn yn cael eu dadansoddi o ran cydaddoli a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cael eu llunio a'u nodi gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol. Anfonir llythyrau i ysgolion ar ôl i'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol eu hystyried, yn canmol arfer da ac yn cynnig cefnogaeth yn ôl yr angen.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd 4+4+3 adroddiad arolygu ysgolion eu dadansoddi fel a ganlyn:

| <i>Sylwadau cadarnhaol mewn barnau cyffredinol</i> | <i>Nifer yr Ysgolion</i> |
|--|--------------------------|
| Perfformiad Cyfredol                               | 4                        |

| <i>Sylwadau cadarnhaol mewn dangosyddion ansawdd:</i>                      | <i>Nifer yr Ysgolion</i> |
|--|--------------------------|
| <b>Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?</b>                  |                          |
| Lles   | 2                        |
| <b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>                 |                          |
| Profiadau dysgu  | 10                       |
| Gofal, cymorth ac arweiniad  | 11                       |
| Yr amgylchedd dysgu  | 8                        |
| <b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b> |                          |
| Arweinyddiaeth   | 1                        |
| Gweithio mewn partneriaeth   | 5                        |

| <i>Sylwadau Negyddol</i> | <i>Nifer yr Ysgolion</i> |
|--------------------------|--------------------------|
| <b>Profiadau dysgu:</b>  |                          |
| • Dinasyddiaeth Fyd-eang | 2                        |

### **iii) Dogfennau Cyfarwyddyd**

Mae dogfennau cyfarwyddyd a grëwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol yn parhau i fod ar gael i ysgolion gan gynnwys 'Canllaw Cynhwysfawr i Addysg Grefyddol' ac 'Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen'

### **iv) Adnoddau a argymhellwyd**

Mae'r dogfennau cyfarwyddyd y cyfeirir atynt uchod yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau sy'n werthfawr ac a argymhellwyd neu a werthuswyd gan athrawon mewn swydd. Hefyd, cynigir cyngor mewn ymateb i geisiadau penodol. Yn ogystal â hyn rhoddir gwybod i ysgolion am adnoddau drwy gyfrwng Newyddion Addysg Grefyddol sydd ar gael i bob ysgol yn electronig, ac maent hefyd yn gallu defnyddio Canolfan Genedlaethol Cymru ar gyfer adnoddau Addysg Grefyddol ym Mhrifysgol Bangor a Chanolfan Addysg Grefyddol y Santes Fair.

Mae deunyddiau hunan-arfarnu wedi cael eu hyrwyddo ac maent ar gael ar wefan y Religious Education Quality Mark.

### **v) Hyfforddiant Mewn Swydd ar gyfer Cydaddoli**

Nid oes unrhyw hyfforddiant mewn swydd wedi'i ddarparu ar gyfer Cydaddoli yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

### **vi) Gwerthuso effeithiolrwydd arweiniad**

Nid oes gwerthusiad ffurfiol o'r deunydd canllaw gwreiddiol wedi'i wneud, ond mae ymatebion gan ysgolion i'r deunyddiau, a sylwadau a gynigir drwy ymweliadau ysgol wedi nodi faint y mae'r ysgolion wedi gwerthfawrogi'r deunyddiau ac yn eu defnyddio wrth gynllunio a gwella eu darpariaeth.

### **vii) Penderfyniadau**

Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud.

## **3) Materion Eraill**

### **Lleol**

Mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol wedi comisiynu'r gwaith o greu detholiad o astudiaethau achos i hyrwyddo arfer da sy'n ymwneud â chymunedau lleol yn cefnogi Addysg Grefyddol a Chydaddoli. Mae ysgolion wedi cyflwyno enghreifftiau fydd yn cael eu casglu a'u hanfon i bob ysgol yn yr Awdurdod Lleol i ysbrydoli a hyrwyddo gweithgareddau tebyg. Gofynnwyd am astudiaethau achos o gymunedau ffydd lleol a sut y maent wedi gweithio gydag ysgolion lleol hefyd ac fe ddaethant i law.

Dechreuodd yr aelodau gyfarfod mewn ysgolion uwchradd lleol, cafodd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol gyflwyniad gan ysgol gynradd lleol yn egluro sut maent yn gweithio gyda'u cymunedau ffydd lleol.

### **b) Cenedlaethol**

Cafodd yr aelodau gyflwyniad a grëwyd gan CBAC yn esbonio'r pwyntiau allweddol o ddadansoddiad data arholiadau TGAU a Safon Uwch 2014 mewn Addysg Grefyddol yn 2014.

Mae aelodau hefyd wedi cytuno i newid rhai o'i arferion yn 2015-16, mewn ymateb i gyflwyniad ynglŷn â 'Chyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a Threfniadau Consortia lleol'. Bydd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn cael ei gynnal, lle bo modd, mewn ysgolion uwchradd ar draws yr Awdurdod Lleol. Bydd camau hwyluso grwpiau cydweithredol ysgol i ysgol hefyd yn cael eu trefnu i gefnogi a hyrwyddo arfer da mewn Addysg Grefyddol a Chydaddoli.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ynglŷn â goblygiadau'r Adolygiad Donaldson ar Addysg Grefyddol.

#### **(i) Estyn:**

Cyflwynwyd adolygiad thematig Estyn o Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fydeang i Aelodau. Nodwyd y gall Addysg Grefyddol gefnogi gwaith y maes pwysig hwn mewn ysgolion.

Cafodd Adroddiadau Arolygon ar ysgolion eu derbyn a'u dadansoddi, fel yr adroddwyd.

#### **(ii) Yr Adran Addysg a Sgiliau:**

Mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol wedi cael gwybod am ddatblygiadau a mentrau a wneir gan neu drwy Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Mae'r Gynhadledd Maes Llafur y Cytunwyd Arno wedi cael ei gohirio tan y bydd yr Adran Addysg a Sgiliau'n cyhoeddi ei newidiadau cynlluniedig i'r cwricwlwm. Mae Cymdeithas Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru wedi cyfarfod â'r Athro Donaldson i drafod lle Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm cyfredol.

#### **(iii) Cymdeithas Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru**

Roedd aelodau'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a'r Awdurdod Lleol yn cael eu cynrychioli ym mhob un o gyfarfodydd Cymdeithas Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru, a gwelwyd rhai o'r cyflwyniadau sydd wedi cael eu gwneud. Parhaodd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol i gael adroddiadau gan gynrychiolwyr sy'n mynychu cyfarfodydd y Gymdeithas, ac mae hefyd yn derbyn cofnodion a phapurau Cymdeithas Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru.

#### **(iv) Cwynion**

Ni chafodd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol unrhyw gwynion.

#### 4. Atodiadau:

##### a) Cyfansoddiad y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

###### Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol:

###### Yr Eglwys yng Nghymru

Sylvia Harris  
Simon Cameron

###### Catholig

Mary Ludenbach

###### Undeb y Bedyddwyr

Disgwyl am Enwebiad (Cymraeg)  
Disgwyl am Enwebiad (Saesneg)

###### Presbyteraidd

Parch. Brian H Jones (Cymraeg)  
Christine Thomas (Saesneg)

###### Methodistiaid

Parch. Martin Evans-Jones

###### Diwygiedig Unedig

Disgwyl am enwebiad

###### Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Disgwyl am enwebiad

###### Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion

Dominic Oakes

###### Byddin yr Iachawdwriaeth

Capten Siân Radford

###### Mudiad Efengylaidd Cymru

Disgwyl am enwebiad

###### Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon:

###### Pennaeth Uwchradd

Disgwyl am enwebiad

###### Pennaeth Iau

Disgwyl am enwebiad

###### Arbenigwyr Addysg Grefyddol Uwchradd

Cate Harmsworth

###### Pennaeth Babanod

Disgwyl am enwebiad

###### Athrawon Ysgol Arbennig

Ms. Ali Ballantyne

###### Athro Dosbarth Iau

Disgwyl am enwebiad

###### Athro Dosbarth Babanod

Disgwyl am enwebiad

###### Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorydd Dewi Owens  
Y Cynghorydd Arwel Roberts  
Y Cynghorydd Ann Davies

Y Cynghorydd Bill Tasker  
Y Cynghorydd Joe Welch

###### Aelodau Cyfetholedig:

Mr Gavin Craigen [gavin@craigen.net]  
Tania Ap Sion - Cyfarwyddwr Canolfan y Santes Fair [t.apsion@glyndwr.acuk]

##### b) Nifer a dyddiadau cyfarfodydd

###### Cyfarfodydd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol:

22 Hydref 2014  
13 Chwefror 2015  
29 Mehefin 2015

**c) Sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad**

- Yr Adran Addysg a Sgiliau
- Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Cymdeithas Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru i sefydliadau sydd â diddordeb

**TABLAU O GANLYNIADAU ARHOLIADAU TABLES OF EXAMINATION RESULTS**

*Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 1: CANLYNIADAU TGAU 2013: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL*  
Denbighshire Schools – Table 1: GCSE RESULTS 2013: ALL – RELIGIOUS STUDIES

| <i>Ysgolion<br/>Schools</i>          | <i>Cyfanswm<br/>/Totals</i> | <b>A*</b> | <b>%</b>     | <b>A</b>  | <b>%</b>     | <b>B</b>   | <b>%</b>     | <b>C</b>   | <b>%</b>     | <b>D</b>  | <b>%</b>    | <b>E</b>  | <b>%</b>    | <b>F</b>  | <b>%</b>    | <b>G</b> | <b>%</b>    | <b>U</b> | <b>%</b>    | <b>%<br/>A* - C</b> | <b>%<br/>A* - G</b> |
|--------------------------------------|-----------------------------|-----------|--------------|-----------|--------------|------------|--------------|------------|--------------|-----------|-------------|-----------|-------------|-----------|-------------|----------|-------------|----------|-------------|---------------------|---------------------|
| <i>Dinbych<br/>Denbigh</i>           | 27                          | 3         | 11.1%        | 5         | 18.5%        | 9          | 33.3%        | 4          | 14.8%        | 4         | 14.8%       | 2         | 7.4%        |           | 0.0%        |          | 0.0%        |          | 0.0%        | <b>77.8%</b>        | <b>100%</b>         |
| <i>Glan Clwyd</i>                    | 20                          | 6         | 30.0%        | 6         | 30.0%        | 3          | 15.0%        | 1          | 5.0%         | 4         | 20.0%       |           | 0.0%        |           | 0.0%        |          | 0.0%        |          | 0.0%        | <b>80.0%</b>        | <b>100%</b>         |
| <i>Prestatyn</i>                     | 220                         | 16        | 7.3%         | 46        | 20.9%        | 59         | 26.8%        | 60         | 27.3%        | 13        | 5.9%        | 18        | 8.2%        | 4         | 1.8%        | 4        | 1.8%        |          | 0.0%        | <b>82.3%</b>        | <b>100%</b>         |
| <i>Dinas Brân</i>                    | 80                          | 1         | 1.3%         | 11        | 13.8%        | 23         | 28.8%        | 28         | 35.0%        | 8         | 10.0%       | 2         | 2.5%        | 4         | 5.0%        | 3        | 3.8%        |          | 0.0%        | <b>78.8%</b>        | <b>100%</b>         |
| <i>Dinbych<br/>Dinbychryd</i>        | 16                          | 10        | 62.5%        | 4         | 25.0%        |            | 0.0%         | 1          | 6.3%         |           | 0.0%        | 1         | 6.3%        |           | 0.0%        |          | 0.0%        |          | 0.0%        | <b>93.8%</b>        | <b>100%</b>         |
| <i>Y Rhyd/ Rhyl</i>                  | 42                          | 1         | 2.4%         | 2         | 4.8%         | 9          | 21.4%        | 11         | 26.2%        | 6         | 14.3%       | 9         | 21.4%       | 2         | 4.8%        | 2        | 4.8%        |          | 0.0%        | <b>54.8%</b>        | <b>100%</b>         |
| <i>Berid Jones/Bl.<br/>Ed Jones</i>  | 0                           | 0         | 0.0%         | 0         | 0.0%         | 0          | 0.0%         | 0          | 0.0%         | 0         | 0.0%        | 0         | 0.0%        | 0         | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%        | <b>0.0%</b>         | <b>0%</b>           |
| <i>States Ffraid/<br/>St Brigids</i> | 51                          | 15        | 29.4%        | 21        | 41.2%        | 11         | 21.6%        | 4          | 7.8%         |           | 0.0%        |           | 0.0%        |           | 0.0%        |          | 0.0%        |          | 0.0%        | <b>100%</b>         | <b>100%</b>         |
| <i>Cyfanswm AALL/<br/>LA Totals</i>  | <b>456</b>                  | <b>52</b> | <b>11.4%</b> | <b>95</b> | <b>20.8%</b> | <b>114</b> | <b>25.0%</b> | <b>109</b> | <b>23.9%</b> | <b>35</b> | <b>7.7%</b> | <b>32</b> | <b>7.0%</b> | <b>10</b> | <b>2.2%</b> | <b>9</b> | <b>2.0%</b> | <b>0</b> | <b>0.0%</b> | <b>81.1%</b>        | <b>100%</b>         |
| <i>Cymru Oll<br/>All Wales</i>       | <b>11,368</b>               |           | <b>10%</b>   |           | <b>19%</b>   |            | <b>22%</b>   |            | <b>19%</b>   |           | <b>11%</b>  |           | <b>7%</b>   |           | <b>5%</b>   |          | <b>3%</b>   |          | <b>2%</b>   | <b>72%</b>          | <b>98%</b>          |

*Ysgolion Sir Ddinbych - Tabl 2: CANLYNIADAU TGAU 2013 PAWB - ASTUDIAETHAU CREFYDDOL: CWRS BYR*  
 Denbighshire Schools – Table 2: GCSE RESULTS 2013: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

| <i>Ysgolion<br/>Schools</i>          | <i>Cyfanswm<br/>/Totals</i> | <b>A*</b> | <b>%</b>    | <b>A</b> | <b>%</b>    | <b>B</b> | <b>%</b>    | <b>C</b> | <b>%</b>     | <b>D</b> | <b>%</b>     | <b>E</b> | <b>%</b>     | <b>F</b> | <b>%</b>    | <b>G</b> | <b>%</b>     | <b>U</b> | <b>%</b>     | <b>%<br/>A* - C</b> | <b>%<br/>A* - G</b> |
|--------------------------------------|-----------------------------|-----------|-------------|----------|-------------|----------|-------------|----------|--------------|----------|--------------|----------|--------------|----------|-------------|----------|--------------|----------|--------------|---------------------|---------------------|
| <i>Dinbych<br/>Denbigh</i>           | 1                           | 0         | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 1        | 100.0%      | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | <b>100.0%</b>       | <b>100.0%</b>       |
| Glan Clwyd                           | 0                           | 0         | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | <b>0.0%</b>         | <b>0.0%</b>         |
| Prestatyn                            | 0                           | 0         | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | <b>0.0%</b>         | <b>0.0%</b>         |
| Dinas Brân                           | 3                           | 0         | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 1        | 33.3%       | 2        | 66.7%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | <b>100.0%</b>       | <b>100.0%</b>       |
| Brynhyfryd                           | 0                           | 0         | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | <b>0.0%</b>         | <b>0.0%</b>         |
| <i>Y Rhyl/Rhyl</i>                   | 0                           | 0         | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | <b>0.0%</b>         | <b>0.0%</b>         |
| <i>Ben Ed Jones/Bl.<br/>Ed Jones</i> | 30                          | 0         | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 3        | 10.0%        | 4        | 13.3%        | 6        | 20.0%        | 3        | 10.0%       | 5        | 16.7%        | 9        | 30.0%        | <b>10.0%</b>        | <b>70.0%</b>        |
| <i>Santes Ffraid/<br/>St Brigids</i> | 0                           | 0         | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%        | 0        | 0.0%         | 0        | 0.0%         | <b>0.0%</b>         | <b>0.0%</b>         |
